PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD LLUN, 5 MEDI 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Cowan(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Davies, Goodway, Naughton, Palmer, Jackie Parry, Simmons a/ac Thomson |

29 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Derbyshire a Lay.

30 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAETH Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD:

Nodi bod y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol ar 26 Mai 2022, wedi penodi’r Cynghorydd Jayne Cowan yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a phenodi'r Aelodau a ganlyn i’r Pwyllgor hwn: Y Cynghorwyr Cowan, Ash-Edwards, Calum Davies, Derbyshire Goodway, Lay, McEvoy, Naughton, Palmer, Jackie Parry, Simmons a Thomson

31 : CYLCH GORCHWYL

PENDERFYNWYD:

Nodi bod y Cyngor, yn ei gyfarfod blynyddol ar 26 Mai 2022, wedi cytuno ar y Cylch Gorchwyl a ganlyn:

- Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol i ddynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
- Parhau i adolygu digonolrwydd darpariaeth staff, gofod ac adnoddau eraill a neilltuir i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd yr Awdurdod; a
- Chyflwyno adroddiadau, o leiaf unwaith y flwyddyn, i'r Cyngor llawn ynghylch y materion hyn.

32 : DATGAN BUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

33 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2022 yn gywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

34 : RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dywedwyd wrth yr aelodau fod sylwedd yr eitem hon eisoes wedi'i gynnwys yn y Cylch Gorchwyl, a bod ynny wedi'i drafod yn Eitem 3.

## 35 : YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad. Dywedodd wrth yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Llywodraeth Leol: Canllawiau i Brif Gynghorau o fewn cylch gwaith y pwyllgor, a'r ymateb a roddwyd gan swyddogion i gyrraedd erbyn y dyddiad terfyn, sef 22 Gorffennaf 2022, ac a rannwyd ag aelodau'r Pwyllgor drwy e-bost, a rhoi unrhyw adborth ychwanegol i'w gyflwyno yn rhan o'r ymgynghoriad parhaus hwn.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer cyn ymgynghori â'r Swyddogion, ac y byddai Aelodau'n gallu cyflwyno ymateb diwygiedig i Lywodraeth Cymru.

Rhoddwyd amlinelliad o'r argymhellion, ac ar ôl hynny gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau, arsylwadau a chwestiynau'r Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad ynghylch ystyr y term 'strategaeth ar gyfer penderfynu'. Dywedodd y swyddogion mai mater i'r Swyddogion Cymorth Gweithredol oedd hyn, ac nad oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad ynghylch a oedd Adolygiadau Blynyddol yn orfodol. Dywedodd y swyddogion fod yn rhaid i'r Cyngor drefnu i fodloni'r gofyniad am Adolygiadau Blynyddol. Nid oedd yn orfodol i'r Aelodau dderbyn adolygiad, ac nid oeddent wedi cael eu cynnal yng Nghaerdydd ers cryn amser. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad o Siarter Cefnogi a Datblygu'r Aelodau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan rai cynghorau broses strwythuredig ar gyfer Adolygiadau Blynyddol. Nid oedd diffiniad o unigolyn addas a chymwys, ond ym marn y Swyddogion dylai'r unigolyn hwnnw fod yn aelod profiadol.

Roedd yr Aelodau'n cofio fod rhai o'u plith wedi derbyn Adolygiad Blynyddol, a mynegwyd y byddai'r adolygiadau hynny'n ddefnyddiol iawn i'r aelodau eu roi ar y wefan i hysbysu'r cyhoedd am eu gwaith. Dywedodd y swyddogion fod templed ar gael ar gyfer adroddiad blynyddol a oedd yn ôl-weithredol ar gyfer y flwyddyn gynt. Roedd yr aelodau'n cofio bod yr adroddiad blynyddol yn arfer cael ei hyrwyddo gan y Cyngor a mynegwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai Swyddogion yn eu hyrwyddo ymhlith yr aelodau y flwyddyn nesaf i drafod eleni.

Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch yr argraff a oedd yn cael ei chreu, sef bod bod yn gynghorydd yn gyfystyr â swydd. Trafododd yr aelodau a allai'r adroddiad fod yn gyfle i aelodau etholedig rannu'r hyn yr oeddent yn ei wneud â'u hetholwyr. Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr aelodau'n adrodd wrth eu hetholwyr drwy gylchlythyr. Dywedwyd eto y byddai'n fuddiol hyrwyddo adroddiadau ymhlith yr aelodau fel cyfle i rannu eu gweithgareddau ag etholwyr, ond y dylid gwneud hynny mewn modd anffurfiol yn hytrach na bod y mater yn orfodol.

Cyfeiriodd yr aelodau at Gwestiynau 6 a 7 yn ymateb yr ymgynghoriad a holi sut roedd cyhoeddi cyfeiriadau cartref yr aelodau yn berthnasol i hyfforddiant a datblygiad. Dywedodd y swyddogion fod Cwestiwn 7 yn berthnasol i'r hyfforddiant, y cyfleoedd datblygu a'r gefnogaeth i aelodau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o'r model cymdeithasol o anabledd. Dywedwyd wrth yr aelodau ei fod yn ffordd o edrych ar y byd, gan ystyried mai cymdeithas sy'n creu rhwystrau i bobl anabl yn hytrach na bod pobl anabl eu hunain yn broblem,

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o rôl Gwasanaethau Perfformiad a Phartneriaeth. Dywedodd swyddogion fod hyn y nrhan o gylch gwaith y Tîm Polisi a Pherfformiad.

Holodd yr aelodau ynghylch y Cynllun Deisebau a gofyn am gadarnhad ynghylch pryd a sut y bydd y Cyngor yn derbyn a gwrthod deisebau. Dywedodd y swyddogion fod y cynllun yn pennu cyfres o feini prawf ynghylch pa ddeisebau y gellir eu derbyn, ac arweiniad ar y broses. Mae'n rhaid i ddeisebau fod ar faterion sydd o fewn cylch gwaith y Cyngor, ac fe geir meini prawf hefyd ynghylch llofnodion. Os bydd deiseb yn denu 51 o lofnodion gall aelod ward neu ddeisebwr arweiniol ei chyflwyno i'r Cyngor. Mae'r meini prawf ar gael ar-lein, a chytunwyd arnynt ym mis Mai pan ddiweddarwyd y cyfansoddiad. Mynegodd yr aelodau bryder na fyddai deisebwyr yn gallu codi materion sy'n effeithio ar Gaerdydd ond nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drostynt, ac ystyriwyd a allai'r Cyngor wneud ychydig o waith lobïo ar y mater, wedyn dylai deisebwyr allu codi'r mater. Dywedodd y swyddogion, pe bai mater y tu allan i gylch gwaith y Cyngor, ei bod hi'n annhebygol mai deiseb i'r Cyngor fyddai'r ffordd orau o symud y mater yn ei flaen. Nid oedd unrhyw reswm pam na allai aelod o'r cyhoedd gysylltu â chynghorydd a allai ei gynghori ynghylch opsiynau eraill.

Mynegodd yr aelodau'r farn nad yw'r Cynllun Deisebau yn cynnwys mecanwaith i adrodd gwybodaeth yn ôl am ganlyniad deisebau. O dan y cynllun cyfredol, dywedodd y swyddogion fod ymateb yn cael ei roi i'r deisebwr arweiniol, a bod y wefan yn cael ei diweddaru i ddangos bod ymateb wedi'i roi. Mae adolygiad 12 mis yn cael ei gynnal o'r cynllun i weld a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Cododd yr Aelodau fater rhannu swydd ymhlith Cynghorwyr Gweithredol a holwyd a ddylent gael yr un teitl.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Gwestiwn 25 yn gysylltiedig â Chraffu, gan ddweud nad dyna oedd yr unig ffordd i aelodau o'r cyhoedd gyfrannu sylwadau i'r Cyngor. Dywedodd y swyddogion, er nad dyma oedd yr unig bwynt i aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i'r Cyngor, roedd yn un sy'n cyfrannu'n uniongyrchol i'r broses benderfynu, a gallai materion a godir yn y Pwyllgorau Craffu gyrraedd y Cyngor llawn.

Gofynodd yr aelodau am gadarnhad ynghylch a oedd yr ymatebion gan Caerdydd Ddwyieithog yn dod o'r grŵp o aelodau neu gan Swyddogion, a holwyd a oedd unrhyw aelodau yn y grŵp nad oeddent yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrth yr aelodau fod rhai o aelodau'r grŵp yn dysgu Cymraeg, ac mai swyddogion a oedd yn rhoi ymateb.

PENDERFYNWYD:

- Nodi darpariaethau'r ddogfen ymgynghori: Llywodraeth Leol: Canllawiau i Brif Gynghorau, fel yr oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad A; a
- Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i baratoi a chyflwyno ymateb diwygiedig i Lywodraeth Cymru ar ran y Pwyllgor, fel bo'r angen.

36 : DIWEDDARIAD YNGHYLCH YMSEFYDLU'R AELODAU

Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybod i’r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran Ymsefydlu'r Aelodau yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ar 5 Mai 2022. Mae llawer o ganlyniadau disgwyliedig wedi'u cyflawni yn enwedig yn y cam gweinyddol. Mae llawer wedi'i gwblhau o'r cam Hanfodion, er bod rhai aelodau'n dal heb gwblhau'r Cod Ymddygiad. Nid oedd yr holl aelodau'n gallu bod yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi, a nodwyd bod angen cynnal sesiynau pellach. Cafwyd ymateb gwael i'r arolwg gwerthuso electronig ar gyfer y sesiynau gorfodol.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd amlinelliad o'r argymhellion, ac ar ôl hynny gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau.

Mynegodd yr aelodau'r farn fod angen i'r Cyngor a'r arweinwyr grŵp ddweud wrth yr aelodau fod y rhaid iddynt fod yn bresennol mewn sesiynau gorfodol. Nodwyd mai ond 34% a oedd yn bresennol yn yr hyfforddiant Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data, a gofynnwyd pa mor hir y byddai'n cymryd i hyn ddechrau achosi problemau. Dywedodd y swyddogion eu bod yn gobeithio y byddai'r holl aelodau'n derbyn yr hyfforddiant yn fuan, a chyn diwedd y flwyddyn ariannol o leiaf. Byddai sesiynau'n cael eu gwasgaru rhwng cyfarfodydd i sicrhau nad oeddent yn ormod o faich ar yr aelodau.

Dywedodd yr Aelodau fod llawer o aelodau etholedig yn ei chael hi'n anodd dod i sesiynau hyfforddi oherwydd eu horiau gwaith, ac ystyriwyd a fyddai modd cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar ffurf cyrsiau ar-lein. Dywedodd y swyddogion nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd i gyflwyno Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data ar-lein, ond y gellid ymchwilio i hynny. Gallai swyddogion hefyd ystyried trefnu mwy o sesiynau yn y dyfodol er mwyn galluogi aelodau i fod yn bresennol.

Gofynnodd yr aelodau a oedd yn statudol ofynnol i gwblhau'r hyfforddiant statudol, a pha gosbau, os o gwbl, a oedd ar gael pe na bai aelodau'n gwneud hynny. Dywedodd y swyddogion nad oedd yn ofynnol yn statudol i gwblhau'r hyfforddiant, ond ei bod yn ofynnol i bob aelod fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad. Mae gan Gyngor Caerdydd un o'r cymunedau mwyaf amrywiol o fewn ei ffiniau, felly mae'n fuddiol i'r aelodau dderbyn hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Darperir hyfforddiant Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data i ddiogelu'r holl aelodau a'r Cyngor, gan fod pob aelod yn derbyn dyfeisiau TG. Mae'n bwysig i aelodau fod yn ymwybodol o'u rolau a cyfrifoldebau fel rheolwyr data. Darperir hyfforddiant Diogelu a Rhianta Corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor sicrhau bod aelodau'n ymddwyn mewn modd priodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi cytuno y dylai'r hyfforddiant hwn fod yn orfodol. Er nad yw deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau gwblhau hyfforddiant Cod Ymddygiad, mewn achos o dorri amodau bydd yr Ombwdsmon yn gofyn a yw'r Cyngor wedi sicrhau bod hyfforddiant o'r fath ar gael ac a yw'r aelod wedi'i gwblhau. Gall aelodau wynebu dirwy am dorri deddfwriaeth diogelu data. Mae'r holl hyfforddiant gorfodol yn gysylltiedig â swyddogaethau statudol, lle gallai achos o dorri deddfwriaeth greu goblygiadau naill ai i aelod neu i'r Cyngor.

Mynegodd yr aelodau’r farn fod y sesiynau ymsefydlu cyntaf yn dda iawn, ond nad oeddent yn siŵr a gafwyd ymdriniaeth lawn yn rhai o'r sesiynau mwy cymhleth, fel Diogelu Data, â phopeth yr oedd angen ei drafod, ac y gallai fod yn fuddiol mynd ar

drywydd yr adborth o'r sesiynau, yn enwedig gan fod risg uchel yn gysylltiedig â Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data.

Dywedodd yr aelodau fod cynifer o sesiynau wedi'u cynnal nad oeddent yn siŵr pa rai yr oeddent wedi mynd iddynt, ac y gallai fod yn fuddiol anfon rhestr gyfredol at y Prif Chwipiau.

PENDERFYNWYD:

- Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a'i atodiad; a
- Derbyn diweddariad pellach ar Raglen Ymsefydlu'r Aelodau mewn cyfarfod dilynol o'r Pwyllgor.

37 : GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD - TROSOLWG O WASANAETHAU A PHERFFORMIAD

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad, a oedd yn hysbysu'r Pwyllgor am strwythur, gwasanaethau a pherfformiad cyfredol y Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Strwythur tîm

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod un swydd wag, sef Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Pwyllgor (Cymraeg yn hanfodol), a bod proses ar y gweill ar hyn o bryd i recriwtio i'r swydd honno. Mae'n debygol mai Cyngor Caerdydd fydd yr awdurdod cynnal ar gyfer Cydbwyllgor Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a fydd yn cynnwys y 22 o Awdurdodau Lleol, ac roedd Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi cael ei ddrafftio i sicrhau y byddai costau llawn cynnal y Cydbwyllgor yn cael eu talu o Gyllideb y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Roedd cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i gryfhau capasiti'r Tîm Pwyllgorau, ac roedd gofynion y presennol a'r dyfodol yn cael eu hasesu gyda'r bwriad o greu rhagor o swyddi newydd a fyddai o gymorth i gefnogi trefniadau llywodraethu'r awdurdod yn effeithiol. Gofynnwyd i'r gwasanaeth nodi arbedion posibl ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 22/23, a'r flwyddyn ariannol nesaf 23/24.

Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth ynghylch pa dasgau nad oedd y tîm yn gallu eu cyflawni oherwydd yr oedi cyn llenwi'r swydd wag. Dywedodd y swyddogion mai'r broblem fwyaf oedd ei bod hi'n cymryd mwy o amser i gyflawni tasgau. Bu ymdrechion ofer i recriwtio siaradwr Cymraeg â sgiliau clerc Pwyllgor drwy Caerdydd ar Waith.

Trafododd yr aelodau a fyddai'n bosibl recriwtio rhywun di-Gymraeg er mwy helpu i atal unrhyw oedi cyn cwblhau gwaith. Os nad oedd yn hanfodol i'r penodai siarad Cymraeg yn rhan o ddyletswyddau o bwys, efallai y dylai'r swydd fod ar agor i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Yn ôl polisi corfforaethol, dywedodd swyddogion fod yn rhaid i bob adran gynnwys nifer penodol o siaradwyr Cymraeg. Dylai fod gan yr adran 2 siaradwr Cymraeg, ond nid oedd ond yn cynnwys 1 ar hyn o bryd. Os yw'r 3ydd ymgais hwn i recriwtio'n aflwyddiannus, bydd yr adran yn cysylltu ag Adnoddau Dynol i wneud y swydd yn 'Cymraeg yn ddymunol' yn hytrach na 'Chymraeg yn hanfodol'.

Dywedwyd wrth yr aelodau y gellid ymchwilio i'r posibilrwydd o recriwtio neu secondio o rywle arall yn hytrach na Chaerdydd ar Waith.

Siarter CLlLC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cyngor wedi cymeradwyo Datganiad Cyngor Amrywiol ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r Siarter yn cynnig fframwaith bras ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygu yn lleol, a hunanasesiad cychwynnol yw'r Dyfarniad Siarter cychwynnol a gynhelir gan yr Awdurdod ac a gofnodir ac a gyflwynir i CLlLC.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y PDR yr un peth â'r Adolygiad Blynyddol ac y dylai gael ei gynnal gan rhywun addas a phriodol, sef aelod arall yn hytrach na swyddog.

Mentora

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Canllawiau CLlLC i Aelod-Fentoriaid wedi'u cymeradwyo i'w mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2021, a bod 10 o gynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant fel mentoriaid cyn etholiadau'r Llywodraeth Leol. Nid oedd y 28 o aelodau a oedd newydd eu hethol wedi derbyn unrhyw gynnig ffurfiol am wasanaeth mentora. Mae'r adran yn ymwybodol bod mentora anffurfiol yn digwydd. Byddwn yn gofyn i aelodau newydd eu hethol a ydynt yn dymuno cael Aelod-fentor, ac os felly gellir nodi aelod addas a gwneud trefniadau ar gyfer hynny.

Mynegodd yr aelodau'r farn fod mentora'n gweithio'n well pan fydd grwpiau plaid yn trefnu hynny, gan fod cynghorwyr yn teimlo'n fwy cyffyrddus yn cael eu mentora gan aelodau o'u grŵp eu hunain. Mynegwyd y farn hefyd y dylai fod gan gynghorwyr y dewis i gael eu mentora y tu alla i'w grŵp gan fod rhai aelodau o bosib am gael eu mentora mewn maes gwaith neilltuol fel Addysg neu Wasanaethau Plant. Dywedwyd wrth yr aelodau y gallai'r adran gysylltu ag aelodau cyn gynted ag sy'n bosib i gynnig cyfleoedd am wasanaeth mentora.

Cyfarfodydd Aml-leoliad

Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad. Mae system gynadledda newydd wedi cael ei gosod, ac mae'n ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda, er bod rhai mân broblemau cychwynnol wedi codi. Mae'r system Easy Conference yn cefnogi Cyfarfodydd Aml-leoliad, yn cynnig system bleidleisio electronig a chyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg, sy'n rhywbeth nad oedd Microsoft Teams yn gallu ei wneud. Mae'r system wedi cael ei dangos i ALlau eraill ac i CLlLC, a nawr mae angen i gyrff allanol ei mabwysiadu.

Trafododd yr aelodau y problemau technegol a oedd wedi codi gyda'r system Easy Conference. Awgrymwyd bod problemau wedi codi mewn llawer o gyfarfodydd, a bod y rhain yn ei gwneud hi'n fwy anodd i gynghorwyr gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Cafwyd cefnogaeth i'r awgrym y dylid adolygu'r system. Mynegwyd y farn nad oedd y system yn addas i'r diben, a gofynnodd yr aelodau am adroddiad ar y costau. Dywedodd y swyddogion fod rhai o'r problemau'n cael eu hachosi oherwydd diffyg capasiti'r Cyngor i drosglwyddo gwybodaeth dros y rhyngrwyd. Roedd y datblygwr wedi rhybuddio'r Cyngor y byddai'n rhaid i gapasiti'r rhyngrwyd fod yn uwch na lefel benodol, ac nid oedd hynny'n wir bob amser. Mae'n deby na fyddai modd cael ad-daliad o'r arian a wariwyd ar y system.

Datblygu'r Aelodau

Mae cyllid wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU ar gyfer gweithdai PREVENT a Safeguarding Against Violent Extremism (SAVE). Bydd sesiynau eraill sydd i ddod yn edrych ar Pa Sgiliau sydd eu Hangen i Graffu a Chadeirio'n Effeithiol. Mae manylion y cyfleoedd a gynigir gan Academi Cynghorwyr Caerdydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wedi cael eu rhannu â'r holl Aelodau Etholedig.

Arolwg Proffil Demograffig

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr arolwg yn dal yn fyw, ac mai ond 48 o ymatebion a oedd wedi dod i law o gymharu â 66 yn 2021. Awgrymodd yr aelodau y dylid gofyn i Chwipiau'r Grwpiau sefydlu pwy sydd wedi/heb gwblhau'r arolwg.

System Ymholiadau'r Aelodau

Bu'r Aelodau'n trafod yr oedi wrth gael ymatebion i ymholiadau gan etholwyr. Roedd hi'n ymddangos fel pe bai ymatebion y ôl-gronni yng Ngwasanaethau'r Aelodau. Mynegodd yr Aelodau mai ymdrin ag ymholiadau oedd yr agwedd bwysicaf ar eu gwaith. Mae angen ymdrin â chwynion yn amserol, ac mae hyn yn effeithio ar enw da'r Cyngor. Nid yw'r targedau ar gyfer amseroedd ymateb yn cael eu bodloni, a mynegwyd y dylai'r Gwasanaethau Democrataidd ganolbwyntio ar y broblem hon. Dywedodd y swyddogion y bu problemau technegol sydd bellach wedi'u datrys. Roedd llai o staff ar gael oherwydd gwyliau'r haf, a'i bod yn bosibl nad oedd rhai meysydd gwasanaeth yn ymateb mor gyflym ag o'r blaen. Awgrymodd yr aelodau y dylid gofyn am wybodaeth gan yr aelodau etholedig ynghylch maint y broblem.

PENDERFYNWYD:

- Nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

38 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Gwahoddodd y Cadeirydd Gary Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, i gyflwyno'r Flaenraglen Waith.

Mynegodd yr aelodau'r farn fod y mesurau diogelwch ar ddyfeisiau TG y cynghorwyr yn ormodol ac yn achosi problemau diangen. Dywedodd y swyddogion y gallent gasglu gwybodaeth a sylwadau gan aelodau etholedig ac wedyn gofyn i TGCh esbonio i'r Pwyllgor pam bod y mesurau diogelwch ychwanegol yn cael eu gweithredu, ac archwilio i weld a ellid gwneud newidiadau.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor

39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor ddydd Llun, 10 Hydref 2022 am 4.00 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 pm